



Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD IAU, 1AF MAWRTH, 2018

***NODER**

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

<http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home>

Lleoliad

Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 21/02/18)

**Dilwyn Williams
Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2018

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 1 MAWRTH 2018

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h.**, **DYDD IAU** nesaf, **1AF MAWRTH, 2018 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Llafur Rhyddfrydol - Ystafell Llyfni
Annibynnol Unedig Gwynedd – Ystafell Daron

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

6 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. CYFLWYNO DEISEB

Nodi bod cais i gyflwyno deiseb wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd Cemlyn Williams.

6. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

7. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

8. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL Y CYNGOR 2018/19

16 - 29

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

10. CYLLIDEB 2018/19 A STRATEGAETH ARIANNOL 2018/19 - 2020/21

30 - 81

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

11. RHEOLAETH TRYSORLYS - DATGANIAD STRATEGAETH

82 - 107

**RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH
LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD
FLYNYDDOL AR GYFER 2018/19**

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

12. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018/23 108 - 210

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

13. AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR GWYNEDD 211 - 213

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

14. CALENDR PWYLLGORAU 2018/19 214 - 216

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Arweinydd (ynghlwm).

15. RHYBUDDION O GYNNIG

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN WALKER
JONES**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Elin Walker Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

“Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod:

- **Llygredd plastig yn broblem amgylcheddol enfawr sydd yn peryglu bywyd morol.**
- **12.7 miliwn tunnel o blastig yn mynd i mewn i'n moroedd bob blwyddyn. Mae hyn gyfwerth â llond tryc o wastraff bob munud.**
- **Darnau o blasting yn achosi marwolaeth miliwn o adar môr a 100,000 o famaliaid dyfrol, yn ôl UNESCO.**
- **Gwastraff plastig yn bla ar dirwedd, traethau a moroedd prydfferth Cymru.**

Noda'r Cyngor ymhellach bod:

- **Gweithrediad arloesol Cymru o godi ffi ar fapiau siopa untro wedi arwain at ostyngiad o 71% yn nefnydd bagiau untro o fewn tair blynedd gyntaf y cynllun.**
- **Mudiadau amgylcheddol rhyngwladol megis Greenpeace wedi galw'n ddiweddar ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i godi toll ar wastraff plastig megis cwpanau coffi na ellir eu hailgylchu.**
- **Y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid gwelliant Plaid Cymru yn ddiweddar i gefnogi cynlluniau i godi toll ar blastigion**

untro yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru:

I weithredu ar frys er mwyn gweithredu toll ar blastigion untro yng Nghymru ac hefyd i ystyried codi toll ar bob plastig i helpu sicrhau bod moroedd Cymru yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fioamrywiol.”

16. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

(A) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN I'R CYFARFOD BLAENOROL 217

Cyflwyno, er gwybodaeth - llythyr gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas â'r sefyllfa yng Nghatalwnia (ynghlwm).

(B) YMATEB I RYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS I'R CYFARFOD BLAENOROL 218 - 219

Cyflwyno, er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Owain Williams i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas ag addysgu hanes Cymru (ynghlwm).

(C) YMATEB I RYBUDD O GYNNIGR Y CYNGHORYDD CRAIG AB IAGO I'R CYFARFOD BLAENOROL 220 - 221

Cyflwyno, er gwybodaeth - llythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Craig ag Iago i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol (ynghlwm).